# Gwybodaeth i ddioddefwyr am y Datganiad o Effaith ar Ddioddefwr a'r Tribiwnlys Iechyd Meddwl, Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru

Mae'r Tribiwnlys Iechyd Meddwl a Thribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (cyfeirir at y ddau ohonynt fel 'y Tribiwnlys') yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu'r broses o gadw cleifion dan gyfyngiadau er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal priodol, a bod y cyhoedd yn parhau i fod yn ddiogel.[1]

Gall cleifion wneud cais am wrandawiad Tribiwnlys unwaith y flwyddyn. Os nad yw'r claf na'i gyfreithiwr yn gwneud cais am dair blynedd, bydd yr Adran Gwaith Achos Iechyd Meddwl yn cyfeirio'r claf at y Tribiwnlys. Dim ond yn dilyn penderfyniad gan y Tribiwnlys neu'r Adran Gwaith Achos Iechyd Meddwl, ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, y gellir rhyddhau cleifion dan gyfyngiadau.[2]

Fel dioddefwr neu aelod o'r teulu sydd wedi cael profedigaeth sydd wedi dewis ymuno â'r Cynllun Cyswllt Dioddefwyr[3], mae gennych hawl i gael gwybod am yr adolygiadau hyn a chael cyfle i gymryd rhan. Gallwch ofyn i amodau gael eu rhoi ar waith os bydd y claf yn cael ei ryddhau, i'ch helpu i deimlo'n fwy diogel. Gallwch hefyd gyflwyno Datganiad o Effaith ar Ddioddefwr i egluro effaith y drosedd arnoch chi, er mwyn i'r Tribiwnlys ei ystyried wrth bennu amodau rhyddhau.

Bydd eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn eich cefnogi drwy gydol y broses hon. Os oes gennych unrhyw bryderon neu os oes angen cymorth arnoch, mae ar gael i helpu.

## Pa amodau rhyddhau y gellir eu defnyddio

Os bydd y Tribiwnlys yn penderfynu rhyddhau'r claf, gall ddewis defnyddio amodau rhyddhau, fel gofynion i wneud y canlynol:

- ymgysylltu â'i feddyg a'i Oruchwyliwr Cymdeithasol,
- cymryd meddyginiaeth,
- byw mewn cyfeiriad penodol,
- caniatáu profion cyffuriau neu alcohol ar hap lle mae cyffuriau neu alcohol wedi cyfrannu at ei salwch meddwl.

Drwy'r Cynllun Cyswllt Dioddefwyr, gallwch ofyn am amodau sy'n berthnasol i chi. Er enghraifft, gallai'r rhain gynnwys gofynion i wneud y canlynol:

---

[1] Mae cleifion dan gyfyngiadau yn droseddwyr sydd ag anhwylder meddwl sy'n cael eu cadw mewn ysbyty er mwyn cael triniaeth, ac sy'n destun rheolaethau arbennig gan yr Ysgrifennydd Cyfiawnder oherwydd lefel y risg y maent yn ei pheri.

[2] Mae'r wybodaeth hon yn ymwneud â'r hyn sy'n digwydd yn y Tribiwnlys. I gael gwybodaeth am benderfyniadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, siaradwch â'ch Swyddog Cyswllt Dioddefwyr.

[3] https://www.gov.uk/government/publications/get-support-as-a-victim-of-crime/information-about-the-victim-contact-scheme

- lleihau'r siawns y byddwch yn dod ar draws y claf yn y gymuned drwy ardal dan waharddiad; neu
- ei atal rhag cysylltu â chi neu aelodau o'ch teulu.

Bydd eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn eich cefnogi i gyflwyno sylwadau am yr amodau yr hoffech i'r Tribiwnlys eu gosod ar ryddhau'r claf.

## Sut mae gwneud Datganiad o Effaith ar Ddioddefwr i'r Tribiwnlys

Gallwch ysgrifennu Datganiad o Effaith ar Ddioddefwr unrhyw bryd cyn adolygiad y claf, a rhaid ei gyflwyno 28 diwrnod cyn gwrandawiad. Bydd eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn gwneud yn siŵr eich bod yn gwybod erbyn pryd i gyflwyno eich Datganiad.

Gallwch gyflwyno'r un Datganiad bob tro y bydd y Tribiwnlys yn ystyried rhyddhau, neu gallwch benderfynu gwneud un newydd bob tro. Pan fyddwch chi wedi cyflwyno Datganiad ar gyfer gwrandawiad, gallwch ofyn am gael cyflwyno Datganiadau pellach cyn y dyddiad cau er mwyn ychwanegu rhagor o wybodaeth.

## Beth i'w ysgrifennu mewn Datganiad o Effaith ar Ddioddefwr

Mae eich Datganiad o Effaith ar Ddioddefwr yn egluro'r effaith y mae'r drosedd wedi'i chael arnoch chi. Mae hyn yn rhoi llais i chi ym mhroses y Tribiwnlys ac yn rhoi cyd-destun defnyddiol i'r Tribiwnlys ar gyfer unrhyw geisiadau rydych chi wedi'u gwneud am amodau rhyddhau. Er enghraifft, efallai yr hoffech sôn am y canlynol:

- unrhyw anaf corfforol, ariannol, emosiynol neu seicolegol yr ydych wedi'i ddioddef a/neu unrhyw driniaeth y gallech fod wedi'i chael o ganlyniad i'r drosedd;
- os ydych chi'n teimlo dan fygythiad neu'n agored i niwed;
- os nad ydych chi'n teimlo'n ddiogel mwyach;
- yr effaith ar eich teulu;
- sut mae ansawdd eich bywyd wedi newid o ddydd i ddydd.

Rydym yn cydnabod y gall y drosedd a gyflawnwyd gan y claf barhau i effeithio arnoch chi, ac rydym yn deall y gall felly fod yn anodd iawn meddwl eto am effaith y drosedd arnoch chi wrth wneud Datganiad. Bydd eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn eich cefnogi i ysgrifennu eich Datganiad. Ond, mae'n bwysig gwybod nad oes rhaid i chi wneud Datganiad os nad ydych yn dymuno gwneud hynny neu os nad ydych yn teimlo eich bod yn gallu gwneud hynny. P'un a ydych yn dewis gwneud Datganiad ai peidio, gallwch wneud cais o hyd i amodau rhyddhau gael eu rhoi ar waith.

Mae’n ddealladwy y gall fod gennych deimladau cryf am y posibilrwydd y bydd y claf yn cael ei ryddhau, ond dylech wybod na all y Tribiwnlys ystyried y rhain wrth wneud ei benderfyniad. Y rheswm am hyn yw bod yn rhaid i'r Tribiwnlys, wrth benderfynu a ddylid rhyddhau'r claf ai peidio, ddefnyddio meini prawf ar gyfer ei gadw ar sail iechyd meddwl y claf a'r risg y mae'n ei pheri iddo ef ei hun ac i eraill.

Os oes gennych wybodaeth am unrhyw risg rydych chi'n credu y gallai'r claf ei pheri os caiff ei ryddhau, dylech ei rhannu â'ch Swyddog Cyswllt Dioddefwyr ar wahân i wneud eich Datganiad, a bydd yn gwneud yn siŵr bod hyn yn cael ei rannu â'r gweithwyr proffesiynol perthnasol.

## Pwy fydd yn gweld eich Datganiad

Bydd yr holl bapurau a gyflwynir i wrandawiadau Tribiwnlysoedd, gan gynnwys eich

Datganiad, yn rhan o'r hyn a elwir yn 'ffeil yr achos'. Bydd y Tribiwnlys, yr Adran Gwaith Achos Iechyd Meddwl a chyfreithiwr y claf yn gallu gweld y ffeil hon. Bydd ffeil yr achos yn rhan o gofnodion meddygol y claf, felly efallai y bydd ei dîm meddygol hefyd yn gweld y Datganiad os yw'n credu ei fod yn berthnasol i driniaeth y claf.

Fel arfer, bydd y claf yn gweld yr holl wybodaeth sy'n gysylltiedig ag adolygiad y Tribiwnlys oni bai fod y Tribiwnlys, mewn amgylchiadau eithriadol iawn, yn penderfynu peidio â'i datgelu i'r claf.

## Beth os nad ydych am i'r claf weld eich Datganiad

Gallwch wneud cais drwy eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr i'r Tribiwnlys atal y claf rhag gweld eich Datganiad. Gelwir hyn yn 'peidio â datgelu'.

Ni chaniateir peidio â datgelu oni bai fod y Tribiwnlys yn fodlon y byddai datgelu i'r claf yn debygol o achosi niwed difrifol i'r claf neu rywun arall a'i bod yn gymesur i'r Tribiwnlys gadw'r wybodaeth hon oddi wrth y claf. Felly, mae'n debygol y bydd y claf yn gweld eich Datganiad.

Gallwch hefyd ofyn i'r Datganiad gael ei dynnu'n ôl os bydd y Tribiwnlys yn penderfynu y dylid ei ddatgelu. Os caniateir eich cais i beidio â datgelu, bydd y Datganiad yn cael ei ychwanegu at ffeil yr achos, ond ni fydd y claf yn ei weld cyn y gwrandawiad.

Gan mai corff barnwrol yw'r Tribiwnlys, mae'n bosibl y bydd Barnwr yn penderfynu peidio â thynnu eich Datganiad yn ôl neu, ar ddiwrnod y gwrandawiad, y dylid datgelu'r Datganiad, hyd yn oed os cytunwyd peidio â datgelu ar y dechrau.

## Darllen eich Datganiad mewn gwrandawiad

Os bydd y Tribiwnlys yn penderfynu cynnal gwrandawiad, cewch wybod am hyn. Gallwch wneud cais i ddarllen eich Datganiad yn uchel, a bydd hyn yn cael ei wneud o bell. Mae gennych sawl opsiwn ar gyfer sut hoffech i'r Datganiad gael ei glywed. Gallwch wneud cais am y canlynol:

- bod yn bresennol i'w ddarllen yn uchel eich hun;
- cael eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr i'w ddarllen ar eich rhan;
- gwneud recordiad ymlaen llaw o'ch Datganiad, y bydd eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn ei chwarae yn y gwrandawiad, os yw'r cyfleusterau hyn ar gael. Os byddwch yn dewis yr opsiwn hwn, bydd eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn eich helpu i'w recordio cyn y gwrandawiad.

Rhaid i'r Tribiwnlys gymeradwyo cais i ddarllen eich Datganiad yn uchel mewn gwrandawiad, oni bai fod rheswm da dros beidio â gwneud hynny. Os na fydd yn cymeradwyo eich cais, bydd eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn dweud wrthych pam.

Os bydd y Tribiwnlys yn cytuno â'ch cais, byddwch yn cael bod yn bresennol o bell ar gyfer dechrau'r gwrandawiad er mwyn darllen eich Datganiad. Cynhelir gweddill y gwrandawiad yn breifat gan ei fod yn ymwneud â manylion iechyd a thriniaeth y claf.

Bydd eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn eich helpu i recordio eich Datganiad ymlaen llaw neu'n rhannu cyfarwyddiadau ar sut i ymuno â'r gwrandawiad o bell, naill ai o'ch cartref neu o'ch swyddfa brawf leol. Fel arfer, bydd eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr gyda chi yn y naill leoliad neu'r llall i'ch cefnogi. Gallwch hefyd gael aelod o'r teulu, ffrind neu eiriolwr i eistedd gyda chi i'ch cefnogi wrth i chi ddarllen eich Datganiad i'r gwrandawiad.